


rhych

newydd



fersiwn e-zine

Mis Balchder 2024



dewch i rychu!

croeso i rhych newydd, y rhychiog
a'r rhychaf un o'r rhych-zines.

nôl ym mis Tachwedd 2023, daeth criw o bobl
greadigol gwyr i Ganolfan Ysgrifennu Tŷ
Newydd, Llanystumdw, ar gyfer encil rhad ac
am ddim a noddwyd gan Llenyddiaeth Cymru
a Gwynedd Greadigol.

mae sawl peth cyffrous wedi dod o'r
penwythnos yna, a dyma un ohonyn nhw -
zine newydd sbon, sy'n dathlu bod yn gwyr,
sy'n chwarae efo ffurfiau, sy'n arbrofi efo
confensiynau, sy'n cwestiynu be ydi syniadau,
ac sydd, yn y bôn, yn dathlu bod feibiau
heulog wastad mewn rhych newydd!

Llyfrau a Lliwgar

Cyfranwyr

Leo Drayton

Llio Maddocks

Lee Green

Iestyn Wyn

Kayley Roberts

Kallum Weyman

Fflur Arwel

Iwan Kellett

Melda Lois Griffiths


Nia Wyn Jones

Gruffydd Siôn Ywain

Mair Jones

Lois Gwenllian Jones

Gareth Evans-Jones



Mwyn yw'r mawn ymer

Hen bits bach annifyr.

Llfform

Go Caffio noi i chwrae gennau yn yr ysgol!

Dyna beth yw byw.

RHEGEN Y RHYCH.

Y rhegen lwys a rygna lan—seiniau,
O'i swynol ymguddfan ;
Er na cheir fawr rin o'i chan,
Ni hagra hon gor anian.

Ednant



YR ARADR.

Llawforwyn y byd llafuriol—erioed,
Yw'r aradr hynafol;
Iaith ei **rhych** fyth ar ei hol,
Llawn yd fydd ddarlleniadol.

—*Ivor Cynidr Parry.*

W

Ymddengys
fod rhai o'i swyddogion ēr's peth amser yn
archwilio y wlad ar hyd pa un y gellid **rhychu**
yr afon newydd hon.

Pa ffordd i

Lanystumdwy?

Horror film - horror perffaith.

Dim petrol ar ôl.

Ar waith, cynllun ysbryd a alltudwyd.

Un noswaith llaith a llwyd.

Ffordd ar gau a golau gwyn
car ar bont yn styc.

Ffycin Hel ac oerfel ar y gwynt.

Gwynt chwerthin a hin helynt.

A ni'n chwerthin just achos.

Rhegi, a ni mor agos.


I dŷ fo, Yr hen David LG, a'i llenwi
efo'n lejands ni.

'Chos, go iawn doedd neb yn chwysu

Nac ofn yn y car.

A Horror film, un perffaith

Oedd ein hwyl a'n hedd wahanol cwiad.



Iwan Kellett

Hen wylod anffodus,

Play oddi rhw a pan oddi p's eisian

Gaebo unicorns a gweled
Rainbow milk yn y bowien

Ac arogl dail ar flaen hy mysedd

Cymrodd y cath bach off y sofa, dwend i lawysken' a holl
a medeg i ffwrdd

Dwi fel arfer yn posio papur dw'r rowlio, & nid i di phlegu

Atis Golau estron y ddinas yn codi hiraeth
& gwyniat o'r hoel mîl a meillionen.

Dan a dan yn gwnend dim

With i'r bore raddol lishro a marw

a maeth yr oesawr mwytho
Deffrodd, yma ffniwr y story
Ffoniwr

Fory fydd hi. Dwi gaddo.

FEIBIAU

Hevog



feibau

feibau

feibau

feibau

feibau


Yn y bore, ac yn ail fore hwyd
f'y mywyd -

Tlaid oedd y bore cyntaf, a thwyll fel prynhaen

Golgotha -

Yn yr ail fore codais a mywyd i

Nant Ffrancon i glywed y gôg ac



i weld ei chlychach

yn canu'r gwawys

dros y daffys

Codais a mywyd i Nant Ffrancon a rheinlo f'y

hun yn setyll

o'n goleuni i

cwm am y tro

cyntaf.

A'r hgyd llwybrau gorgyfarwydd

Rhwyd hecheddar gorgyfarwydd

A'r Ian hen afon gorgyfarwydd

y ferch unig.

Teimlais avel
Ebrill llwyd ngorff
au y tro cyntaf.

Ger Pont y Ceunant a las y Nant
ar Gwm Perfedd o'r clogwyni a'i
Ffwrdd Goch ar Llynnau Mawyd a
Blaen y Nant a
Phes y Benglog a'i creigiau a'u
hystyr yn pentyrri nes creu
hantref o faich drom
ar gmenydd ninnau
sgîn ceisia bŵr.

Daeth môr o
oleuni argaf
yn Nant Ffrancon

Ond pam oedd tŷwylach
gynt?

Pwy oedd yn atal
a chysgod i?

Chwe mlynedd o aros am
ddwy bil森 fach bob dydd,
un yn wen ac un yn las

Pwy oedd y cosbwr,
neu pwy sy'n
haeddu'r gosb?

Yn ofni fel gelynnion, ac
amharch yn ea ofn

Clywais y gôg yn cau ar
awel y cwm yn heulwen llachar
Ebrill,

a throi â chaniad crwydrol
ac araf

Herbior gwyllebach arswyddus
air breichiau tân



Cerddais i Hwrodd o unigrydd

y Nant

i geisio caloniacu

ac i ddadmer y rheu



Nia Wyn Jones

a rychaf?

a rychi di?

a rychwn ni?



rhychais
rhychaist
rhychodd

rhychasom
rhychasoch
rhychas ...?

Wedi'i hysbrydoli gan
Sappho C.610 BC - 570 BC
(If Not, Winter - Anne Carson):

Πολικίλοφρον ἀθανάτ' Αφρόδιτα,
παῖς Διός δολύπλοιε, λίσσουμαί σε,
μή μ' ἔξαιτι τμηδ' ὄνιαιτι δάμνα,
πότνια, θῦμον,

Deathless Aphrodite of the spangled mind,
child of Zeus, who twists lures, I beg you
do not break with hard pains,
O lady, my heart

Anfarwol Aphrodite ar dy orsedd ddisglair,
merch Zeus, sy'n troelli llithiau, rwy'n dy erfyn
peidiwch â thorri fy nghalon,
O Dduwies

(Fersiwn/Cyfieithiad i)



CRANOGWEN.

'Rwyf bron a'th addoli, anfarwol Granogwen,
 'Rwyt wedi fy synnu, a'm swyno yn lân,
 Y mae dy athrylith a'th awen ddisgleirwen,
 Yn twymo fy enaid—yn ennyn fy nghân.
 Dy ryfedd hyawdledd a'th ddwys dduwiol-
 frydedd,
 A'th ddonian gwahanol enillodd fy serch :
 Pwy bellach faidd wadu nas gall arucheledd
 A mawredd meddyliol babellu mewn merch :

- 'Cranogwen,' Buddug, 1842-1909

I seren dêg dy wyneb di
 Ni welaf *fî* un gymhar,
 Er crwydro 'n hir,—yr un mor fâd
 Yn wybren gwald y ddaear :
 Mae miloedd eraill, sêr o fri,
 Yn gloewi y ffurfafen ;
 Edmygaf hwy, ond *caraf* di,
 Fy Ngwener gu, fy “ Ogwen.”"

- 'Fy Ffrynd,' Cranogwen, 1839-1916

Come, my Lucasia, since we see
That miracles men's faith do move,
By wonder and by prodigy,
To the dull angry world let's prove
There's a Religion in our Love.

'Friendship's Mysterys, to my dearest Lucasia,'
Katherine Philips, 1631-1664

μνάζει θαί τινα φα^τμι καὶ ἔτερον ἀμμέων

someone will remember us

I say

even in another time

SAPPHO

Bydd rhywun yn ein cofio
Rwy'n dweud
Hyd yn oed yn oes pell/yn amser maith

(Cyfieithiad i)

O, Cranogwen, Buddug a Sappho,
peidiwch fecso, rydym yn cofio,
yn eich geiriau, ac wrth ddal dwylo.
Bu cariad a chred yn ein crio,
eich poen, eich colled, rydym yn eilio,
yn eich darllen pan ‘dyn/dan ni’n brifo.
Am ein geiriau, rydym yn crwydro.
Ond rydych chi yma, yn ein chwyldro.

(Geiriau fi)

Os dim gaeaf

Pwy O Sappho sy'n dy boenu?

Rhiain
sanctaidd a hardd

yn llais main

cofia di
yn ein hieuencid
pethau prydferth
llawer a phrydferth pethau

i'ch anrhydeddu
trwy ein gwaith

who honored me
by giving their works

Os Nid Gaeaf (Geiriau fi, wedi ysbrydoli gan eiriau Sappho)

I loved
because I loved you
I was loved
because I loved you

Caraus
achos caraus i ti
cefaus fy ngharu
achos caraus ti fi

soon she will abandon you

yn fuan wnaeth hi ddianc

I would still bring you flowers,
lavenders to your lap,
I at your feet

lafant i dy draed

nid yw'n newidiol

Anfarwol Sappho
O fy nghalon

Dy wyneb anfarwol
Bendithiol



fy nghalon wallgof

I weld y golau ar dy wyneb
nawr eto

Fi'n hiraethu
a'n syllu.



Ni allaf / Sai'n gallu

Γλύκηα μάτερ, οὐ τοι δύναμαι κρέκην τὸν ἕιτον
πόθωι δάμειςα παῖδος βραδίναν δι' Ἀφροδίταν

sweet mother I cannot weave -
slender Aphrodite has overcome me
with longing for a girl *

annwyl Mam, ni allaf weu -
mae Aphrodite wedi fy ngoresgyn
gyda hiraeth at ferch

Mam fach, sai'n gallu gweu
pan mae'r nefoedd wedi fy nharo
â chariad at ferch

(*cyfieithiad poblogaidd - o sappho: a new
translation of the complete works, diane rayor)

Nos


a finnau ar glustog glyd
yn gollwng fy hun

rhoddodd eu hadenydd i lawr

cysga ar fron dy ffrind dyner

(darnau o gyfieithu geiriau Sappho)

Non, je regrette rien



Difaru dim
difara ddim
wna'i byth
dy ddifaru di.

Mair Jones

Y ffordd adra

Wrth droedio'n bwyllog tuag adra
Chwytha ddeilen grin heibio i mi
Llamaf. Credais mai llygoden oedd hi.

Fysat ti wedi chwerthin.

Dw i'n gweld maneg goch ar lawr.
Ôl troed sawl un wedi cerdded drosti.
Treuliedig, a'i chochni'n gwaedu.

Dw i isio iddi afael yn fy llaw.

Yn hongian oddi ar fachyn ffens
Mae bag baw ci, a ger llaw mae
Bagiau bin wedi rhwygo heb eu casglu.

Llanast.

Crafa ganghennau moel coed yr ysgol fy nghorun
Gan glymu fy ngwallt i edrych fel gwe pry cop
Yn erbyn golau'r stryd sy'n dyfrio fy llygaid.

Fel y cwlwm tynn yn fy nghorn gwddw.



Mae curiad fy nghalon yn un â fflachio
Golau'r groesfan sebra – dw i'n agosau.
Rhaid i mi droi i'r chwith ymhen dim.

Ac agor y drws i dŷ gwag.

Yma. Does dim dibwys i dynnu sylw.
Dim ond ti. A'r faneg goch
Yn dal i waedu.

Lois Gwenllian Jones

Fuoch chi riaoed yn Morio?

drewod caws,

Hen, Hen ydi o'n hen dwi dim yn gybod
Condensation yn llifo mewn.
pwll wrth waedol y ffeneist

Welis i Steve Eaves un tro, o bell

Gwrandoedd y ddifyperl ar y traeth, dros en hydref iâ.

Bob yn ail person yn gwisgo Dr Martens

mabuysiadau canfach i lerni'r gwagle.
drog frawast hwyf i'n nos.

A 'sori!' yn bry wedi'i dawatio

Un cyffle - un cyffle'n unig gei di

A fydd gen ti le i grempog?

Brenuysiadau.

cwirio'r cynghanedd

sawl enby ar yr encil
cynnwys pen, arwain pensil
sgwennwyr, hŷd, vibes a hyder
cwis hwyl yn creu anhwylter
cei yma rhes dr martens
ffans ffugwydd (onid ffuglen?)
Steddfod eitha prifodol
darganfod Huns dyfodol
beirdd rhydd yn cynghaneddu
cyfnod wedi **nodweddu**

Mae'r **gynghanedd yn berthyn i ni gyd, nid yn unig y steddfotwyr!** Rho gynnig arni x

Mae'r geg fel deilen grin

ar goedwig i gyd ar dîn

Chwech amfai! budr yn
rhwng tuag atynt, doedd dim ffordd
allan.

Bod-oli, Bod-ion, Bod a byw.

Yn brathur brethyn a gwlan rhwng eu dannau

Pob jam llawn crancod,

Be iu hyra dod diros yr hill?

Tim.

In iu Coch, Geinian gwyn.

Ac mae'n berwi, fel llau ar ben.

Paid /llefain/ cris dros llath /llephith eufys.

Faint o wethiau fedrith rwyd pachio to fyby?

chwilio am ddrededig
oedd weithau ~~oedd~~ oddo yn fony



Yn y Goron

Yn y Goron, mae atgof,
a hwnnw'n llenwi pob dydd,
yn golchi ein gruddiau,
yn cosi crychau ein gwenau,
yn gynghanedd ddi-gynghanedd hyfryd o
gwiyr / cwiar / queer / ddim-yn-sdrêt-o-beth'ma.

Yn y Goron, mae atgofion
wedi codi'n anwedd ar ffenest, ganrif yn ôl,
a chlapio ac a-menio yn troi'n 'be-ffwc?'
tasa 'na regi bryd hynny, wrth gwrs ...

O dan y Goron, roedd 'na wenu,
a rhai o'i gwmpas yn mynnu
mai da, mai iawn, mai siort ora
oedd y bryddest yma:

mai dyma'r atgof
all llenwi ein
llwybra.

GEJ

1924

Dwim isho gweld chodi fory
fel snogio chwadon rheibys.

Cysylltiadau defnyddiol

Llinell gymorth LGBTQ+ Cymru Helpline

01792 316137 / 0800 917 9996

E-bost: Sam@LGBTcymru.org.uk

Cyfeiriad: I The Kingsway, Abertawe, SA1 5JQ

Llinell gymorth Switchboard LGBT+ Helpline

0300 330 0630

Umbrella Cymru

Tecstio ar 07520645700 neu ffonio 0300 302 3670
(gan adael eich enw a'ch manylion cyswllt os na fydd
ateb).

E-bost: support@umbrellacymru.co.uk

**Glitter Cymru (ar gyfer y gymuned mwyafrif byd-eang
– global majority – yn ne Cymru)**

E-bost: glittercymru@gmail.com

Viva LGBT+

Grwpiau ieuengtid ar draws siroedd Dinbych, Conwy,
Fflint, Ynys Môn a Wrecsam i bobl 11-25 sy'n LHDT+
neu'n cwestiynu.

Ffonio: 01745 357941

E-bost: info@vivalgbt.co.uk

Trans Aid Cymru

E-bost: enquiries@transaid.cymru

Constellation

Prosiect llesiant i bobl ifanc 12-16 ac 17-25 yng nghanol Caerdydd sy'n draws ac yn anneaidd.

Ffoion: 029 20344776

E-bost: tim.crahart@churcharmy.org

Impact

Grŵp LHDT+ ieuengtid yn 36-38 Cathays Terrace,
Cardiff CF24 4HX

E-bost: lgbt@cathays.org.uk

GISDA

Cefnogaeth a Chyfleoedd i bobl ifanc sydd â chyfarfodydd ieuengtid yng Nghaernarfon, Pwllheli a Blaenau Ffestiniog

E-bost: gisda@gisda.co.uk

Tŷ Pride

Cartref canoledig LHDT+ cyntaf Cymru

Claire Owens: claire.owens@denbighshire.gov.uk

Emma Evans: emmaevans@llamau.org.uk

Hannah Rowan: hannah@rhylyouth.co.uk

Tir Dewi: cymorth iechyd meddwl i bobl yng nghefn gwlad

0800 121 47 22

info@tirdewi.co.uk

Available: 7:00-22:00

ac amser i

rychu

dy

rychau

rhychiog di!



LLYFRAU LLIWGAN

